**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-12-17 Papur 6/ Paper 6

Ein cyf/Our ref MA/P/CS/0153/16

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

16 Mawrth 2017

Annwyl John

Rwy'n amgáu'r wybodaeth ychwanegol (gweler isod ac yn yr atodiad) y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdani mewn perthynas â'r Ymchwiliad i gefnogaeth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

**Cyfarfodydd a Chylch Gwaith y Bwrdd Gweithrediadau**

Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd Gweithrediadau wedi cwrdd ar 27 Chwefror, ac wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl diwygiedig, gan gynnwys cylch gwaith ehangach a newid enw'r Bwrdd i Fwrdd Gweithrediadau ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfod blaenorol ar 13 Mehefin 2016.

**Adnewyddu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches**

Cytunodd y Bwrdd Gweithrediadau y dylai'r Cynllun Cyflawni gael ei adnewyddu yn ystod 2017. Fodd bynnag, nid yw'n hollol gywir y bydd y broses hon yn dechrau drwy gynnal cynhadledd yn yr haf. Bydd y gwaith i adnewyddu'r cynllun yn dechrau cyn gynted â phosibl. Ar y llaw arall, dim ond megis dechrau yr ydym o ran cynllunio ar gyfer y gynhadledd. Fe wnaeth y Bwrdd Gweithrediadau ddatgan y byddai'n cefnogi'r egwyddor o gynnal digwyddiad o'r fath, ond nid yw'r manylion na'r dyddiadau wedi cael eu cadarnhau eto. Er ein bod yn gobeithio y byddai'n cyfrannu at y broses o ddiweddaru'r Cynllun Cyflawni, mae'n rhy gynnar i ddweud sut y byddai hyn yn digwydd.

**Gwiriadau Hawl i Rentu**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod pa ddyddiad y bwriedir dechrau cynnal y gwiriadau Hawl i Rentu yng Nghymru, ond rydym yn awyddus i sicrhau bod y broses yng Nghymru yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol, er mwyn caniatáu digon o amser i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

landlordiaid ddeall eu cyfrifoldebau newydd ac i sicrhau bod y system yn gweithio fel y dylai, heb wahaniaethu.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at y Gweinidog Mewnfudo, Robert Goodwill AS, yn ddiweddar i esbonio hyn (gweler y llythyr amgaeedig).

**Llety ar gyfer ceiswyr lloches**

Ysgrifennais atoch ar 2 Mawrth i gadarnhau fy mod o ddifrif ynghylch y mater hwn, ac y byddaf yn ei ystyried ymhellach. Rwyf eisoes wedi gofyn i swyddogion portffolios tai mewn awdurdodau lleol ystyried unrhyw enghreifftiau o lety gwael yn eu hardaloedd nhw a rhoi gwybod i mi amdanynt. Byddaf yn parhau i roi sylw i'r mater hwn.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children